Annwyl randdeiliad

Yn 2022, cynhaliodd yr awdurdod lleol broses ymgynghori statudol ynghylch cynnig i wneud newid rheoleiddiedig i Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i gynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol gynradd Gymraeg drwy ehangu'r ysgol i greu 2.5 dosbarth mynediad o fis Medi 2025 ymlaen.

Ym mis Hydref 2022, penderfynodd y Cabinet weithredu'r cynnig fel y'i cyhoeddwyd.

Byddai'r penderfyniad hwn yn arwain at symud yr ysgol i dir oddi ar Ffordd Cadfan, Bracla. Byddai lle i 525 o ddisgyblion 4-11 oed yn yr ysgol, a lle i 90 o ddisgyblion meithrin cyfwerth ag amser llawn ynghyd â dosbarth arsylwi ac asesu ar gyfer 8 disgybl. Byddai darpariaeth gofal plant ar gael ar yr un safle hefyd. Ar ôl rhoi'r cynnig ar waith, 75 fyddai nifer derbyn cyhoeddedig Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.

Mae wedi bod yn anodd datblygu'r cynllun oherwydd problemau ecolegol sydd wedi atal y datblygwr rhag clirio safle Ffordd Cadfan. Mae hyn wedi effeithio ar y rhaglen a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac a oedd yn sail i benderfyniad y Cabinet. Mae rhaglen ddiwygiedig ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd wedi'i ddatblygu. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl cwblhau'r gwaith erbyn y dyddiad gweithredu arfaethedig.

Ar 24 Mehefin 2025, ar ôl ymgynghori â Chorff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, penderfynodd y Cabinet newid y dyddiad gweithredu'n ffurfiol i fis Medi 2027.

Mae penderfyniad y Cabinet ar 24 Mehefin 2025 yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau galw i mewn, fel y nodir yn Rheolau Gweithdrefnau Rhan 4 yng Nghyfansoddiad y Cyngor sy'n caniatáu i'r Cabinet newid penderfyniadau nad ydynt wedi'u rhoi ar waith eto. Os daw hysbysiad galw i mewn dilys i law gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu bydd yr holl randdeiliaid yn cael gwybod.

Yn gywir

**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
**Corporate Director – Education, Early Years and Young People**
Bridgend County Borough Council